

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Cryfhau cymorth i blant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal a'u teuluoedd: newidiadau a diweddariadau i'r Cod Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig.
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Tracy Dunning Y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant Rachel Brown Y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant
Adran:	Yr Is-adran Galluogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar (HSCEY)
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Galluogi Pobl
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:	Delyth Jewell AS, Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod
Dyddiad Dechrau:	Ionawr 2026

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Y cyd-destun a'r sefyllfa bresennol

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod ar duedd gynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a chyrhaeddodd uchafbwynt o 7,241 yn 2021. Yn dilyn gostyngiad yn 2022, cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn 2023 ac roedd wedi cynyddu ychydig eto i 7,198 erbyn 31 Mawrth 2024. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 7,072 o blant yn derbyn gofal, gostyngiad o 1%. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 114 fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed. Mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 5,760 yn 2013, neu 91 fesul 10,000.

Er mwyn trin achos sylfaenol y niferoedd cyson o blant sy'n mynd i mewn i ofal, bydd angen gwaith parhaus ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys meysydd fel codi ymwybyddiaeth o effaith trawma ar draws sectorau, gwaith parhaus ar systemau a gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan, mynd i'r afael â thlodi plant, cyrhaeddiad addysg, iechyd a lles, cyfiawnder ieuencid a chyfiawnder teuluol.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau amrywiol i letya plant sy'n derbyn gofal:

- Gyda pherthynas ("lleoliad gyda pherthynas")
- Gyda rhieni maeth
- Mewn cartref gofal i blant
- Mewn lleoliadau preswyl eraill fel llety â chymorth, ysgol neu, mewn nifer fach o achosion, uned ddiogelwch
- Gyda darpar fabwysiadwr (o dan rai amgylchiadau)

O'r garfan bresennol o blant sy'n derbyn gofal, roedd 8% wedi byw mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y mwyafrif (68%) mewn lleoliadau maeth, roedd 12% wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldebau rhiant ac roedd 14% mewn lleoliadau mewn unedau diogelwch, cartrefi plant neu hosteli.

Ar hyn o bryd, caiff lleoliadau eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdod lleol trwy ei wasanaethau mewnol neu gan ddarparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector. Yng Nghymru, o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu gofrestru gyda Llywodraeth Cymru (hynny yw, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)).

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi arwain at duedd hirdymor o gynnydd yn y defnydd o ofal, ynghyd ag anghenion mwy cymhleth yn cael eu cyflwyno, ac mae wedi arwain at heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac wedi effeithio ar blant a phobl ifanc eu hunain.

Mae paru anghenion plant â lleoliadau priodol ar draws yr amrywiaeth o opsiynau fel maethu a chartrefi gofal, yn dod yn anoddach. Weithiau mae'n anodd i awdurdodau lleol ddod o hyd i leoliadau addas mewn lleoedd addas sy'n diwallu anghenion plant. Gall hyn

effeithio'n negyddol ar y dewis o leoliadau a pha mor barhaol a sefydlog ydynt ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Y newidiadau arfaethedig a ystyrir yn yr asesiad hwn yw:

Cod Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya

- Alinio fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal) – mae'r newidiadau arfaethedig yn darparu canllawiau cliriach a manylach i gefnogi dull cyson o gynllunio'r broses o fabwysiadu. Mae hyn yn cwmpasu:
 - sut mae deddfwriaeth, dyletswyddau rheoleiddio a gofynion ymarfer perthnasol yn cyd-fynd ar draws Rhan 6 a Rhan 4.
 - y gwahanol gamau wrth gynllunio'r broses o fabwysiadu, gan gynnwys sefydlogrwydd cynnar, cynadleddau grŵp teuluol, cynllunio gofal, lleoliad ac adolygu.
 - rolau a chyfrifoldebau gweithwyr cymdeithasol a swyddogion adolygu wrth gefnogi'n effeithiol y broses o gynllunio'r broses o fabwysiadu a gwneud penderfyniadau.
- Cefnogi'r gwaith cyson o gynllunio'r broses o fabwysiadu ac adolygu trefniant mabwysiadu – mae'r newidiadau arfaethedig yn cryfhau'r disgwyliadau i hyrwyddo mwy o gysondeb mewn ymarfer ledled Cymru. Mae'n cynnwys:
 - sicrhau dull clir a strwythuredig o gynllunio ac adolygu lleoliadau ar gyfer mabwysiadu.
 - cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mwy gwybodus ar gamau allweddol ar daith y plentyn.
 - lleihau amrywiaeth mewn ymarfer ar draws awdurdodau lleol.
- Ymgorffori Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) – mae'r newidiadau arfaethedig yn ymgorffori Fframwaith WEP yn y Cod. Mae hyn yn cynnwys:
 - rôl sefydlogrwydd cynnar wrth gyflawni canlyniadau amserol i blant.
 - sut y dylid cymhwyso Fframwaith WEP yn ymarferol, ochr yn ochr â phrosesau presennol ar gyfer cynllunio gofal.
 - disgwyliadau i ymarferwyr wrth ymwreiddio dulliau sefydlogrwydd cynnar wrth wneud penderfyniadau.
- Gofynion adolygu ac ymweld ar gyfer lleoliadau maeth gyda pherthynas – mae Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yn cyflwyno newidiadau er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd i ofalwyr maeth sy'n berthnasau a gymeradwywyd yn llawn. Mae'r Cod yn darparu'r canllawiau ategol ar sut y dylid cymhwyso'r trefniadau hyn yn ymarferol. Mae'n cynnwys:
 - y gallu i deilwra trefniadau adolygu ac ymweld i anghenion unigol y plentyn a'r teulu yn unol â'r Rheoliadau.
 - lleihau ymyrraeth ddiangen wrth gynnal mesurau diogelu priodol.
 - sicrhau bod lles y plentyn yn cael ei oruchwyllo a'i fonitro'n barhaus.

- Mynediad at y lwfans maethu uwch – mae'r newidiadau arfaethedig yn darparu canllawiau cliriach ar sut y gall gofalwyr maeth gael mynediad at y lwfans maethu uwch.
- Pennod newydd ar rianta corfforaethol sy'n darparu canllawiau ychwanegol i awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r canlynol:
 - sefydlu paneli rianta corfforaethol gyda chymorth pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.
 - rôl rhieni corfforaethol wrth ddarparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal pan fyddant mewn gofal a hefyd wrth adael gofal.
 - enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol yn gallu adrodd ar gynnydd wrth gyflawni eu rôl fel rhiant corfforaethol.
- Cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn - mae'r newidiadau arfaethedig yn cryfhau pwysigrwydd gwranddo ar lais y plentyn mewn gwahanol brosesau, gan gynnwys cyfarfodydd adolygu.
- Canllawiau cryfach ar gynnal symudiadau a chyfarfodydd adolygu - mae'r newidiadau arfaethedig yn cyfeirio at ymdrin ag eiddo personol plant sy'n derbyn gofal ac osgoi defnyddio bagiau du wrth symud lleoliad, lle bo hynny'n bosibl. Hefyd, maen nhw'n ymwneud â cheisio osgoi cynnal cyfarfodydd adolygu yn ystod amser gwersi.
- Terminoleg a diffiniadau – nod y newidiadau arfaethedig yw sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn y Cod yn glir ac yn gyson. Mae hyn yn cynnwys:
 - defnyddio terminoleg sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth a fframweithiau polisi cyfredol.
 - gwella eglurder i ymarferwyr o ran deall termau a phrosesau allweddol.
 - cefnogi cysondeb wrth ddehongli a chymhwyso ar draws

Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig

- Cynlluniau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig – mae'r newidiadau arfaethedig yn cyflwyno gofyniad i ddefnyddio templedi ar gyfer cynlluniau cymorth cenedlaethol i hyrwyddo cysondeb ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys:
 - defnyddio templedi cenedlaethol fel gofyniad statudol ar gyfer pob awdurdod lleol wrth ddatblygu cynlluniau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig.
 - darparu dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o asesu angen, cynllunio cymorth ac adolygu trefniadau.
 - sut y dylai cynlluniau cymorth gyd-fynd â phrosesau ehangach ar gyfer asesu, cynllunio gofal ac adolygu.
 - lleihau amrywiaeth mewn ymarfer a sicrhau cynnig clir, cyson a theg o gymorth ar gyfer gwarcheidwaid arbennig, plant a theuluoedd ledled Cymru.

Mae'r newidiadau i'r Codau Rhan 6 a Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) yn cyd-fynd â newidiadau rheoleiddiol diweddar ac yn ceisio mynd i'r afael â materion hirsefydlog trwy wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chyson ac wedi'u teilwra i raddau

mwy i anghenion unigol. Trwy gyflwyno templedi statudol ar gyfer cynlluniau cymorth, a diweddarau trefniadau cynllunio ac adolygu gofal, nod y cynigion yw lleddfu'r pwysau ar ofalwyr a staff, hyrwyddo cysondeb a sicrhau cymorth tecach sydd wedi'i deilwra i raddau mwy ledled Cymru.

Yn ogystal, mae egluro mynediad at y ffi uwch ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn gwella tegwch ac yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn o'u hawliau, gan helpu i gynnal lleoliadau sefydlog a lleihau ansicrwydd ariannol. Mae'r newidiadau'n cryfhau'r aliniad rhwng fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal) hefyd trwy ddod â gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau ymarfer ynghyd mewn dull symlach a mwy cydlynol. Mae hyn yn cefnogi prosesau cynllunio ac adolygu trefniadau mabwysiadu cliriach a mwy cyson ledled Cymru, gan leihau amrywiaeth mewn ymarfer a gwella'r broses o wneud penderfyniadau ar gamau allweddol ar daith plentyn. Mae ymgorffori Fframwaith WEP yn atgyfnerthu ymhellach y ffocws ar sefydlogrwydd amserol, gan annog cynllunio cynharach, mwy o ddefnydd o ddulliau cynllunio cyfochrog, a chanlyniadau gwell i blant trwy fwy o sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant fel "rhiant corfforaethol" ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ac mae'r cyfrifoldeb i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc wrth iddo bontio i fod yn oedolyn yn parhau. Mae hyn yn gofyn am gydweithredu ar draws gwahanol adrannau o fewn awdurdod lleol a'r un ymdeimlad o gyfrifoldeb, yn enwedig ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg a thai.

Yn ystod Tymor y Chweched Senedd, cafwyd ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "gryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhieni corfforaethol". Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn, cyhoeddwyd y Siarter Rhianta Corfforaethol yn 2023. Nod y [Siarter Rhianta Corfforaethol](#) yw hwyluso'r ffordd y mae pawb yn gallu cydweithio i gefnogi a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd bywyd maen nhw'n eu haeddu. Mae'r Siarter yn agored nid yn unig i awdurdodau lleol ond i gyrff cyhoeddus ehangach, sefydliadau'r trydydd sector a chyrff preifat hefyd. Mae'n ymwneud ag adeiladu rhwydwaith cymunedol ehangach i gefnogi pobl ifanc i gael yr un cyfleoedd â phobl ifanc eraill yng Nghymru. Mae'r Siarter yn cynnwys 11 egwyddor Rhianta Corfforaethol sy'n cyd-fynd â [Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP).

Bydd y newidiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6, gan gynnwys cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn, symudiadau ac adolygiadau, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gliriach o ddisgwyliadau'r awdurdod lleol wrth gyflawni ei rôl fel rhiant corfforaethol.

Atal

Mae'r cynigion yn gwneud cyfraniad cryf a chadarnhaol at atal, trwy ganolbwyntio ar gymorth cynnar, cyson ac sydd wedi'i gydgyssylltu'n dda i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn y system ofal. Ar draws y newidiadau arfaethedig, mae pwyslais clir ar leihau'r angen i gynyddu cymorth, atal lleoliadau sy'n methu a gwella canlyniadau hirdymor.

Mae cryfhau cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, sy'n hyrwyddo ymyrraeth gynharach a mwy cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau a sefydliadau, yn elfen ataliol ganolog. Trwy ymwreiddio rhannu cyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, mae'r cynigion yn cefnogi dull mwy rhagweithiol o nodi anghenion a mynd i'r afael â nhw cyn iddynt waethgu.

Mae gwelliannau i'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth, gweithio amlasiantaethol a phrosesau adolygu yn darparu fframwaith mwy strwythuredig a chyson ar gyfer nodi risgiau ac anghenion yn gynnar. Mae hyn yn galluogi ymyriadau mwy amserol, gan leihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd argyfwng, ansefydlogrwydd lleoliadau neu'r angen am gymorth mwy dwys yn ddiweddarach.

Mae'r pwyslais ar sefydlogrwydd lleoliadau, gan gynnwys canllawiau cliriach ar symud lleoliad a phrosesau cynllunio cryfach, yn arbennig o bwysig o safbwynt atal. Trwy leihau tarfu a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cynllunio a'u rheoli'n well, mae'r cynigion yn helpu i atal y canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â symud lleoliad fwy nag unwaith, gan gynnwys lles emosiynol gwaeth a tharfu ar addysg.

Mae alinio fframweithiau mabwysiadu a chynllunio gofal, ochr yn ochr ag ymgorffori Fframwaith WEP, yn cefnogi atal ymhellach trwy hyrwyddo trefniadau sefydlogrwydd sefydlog, cynharach. Mae hyn yn lleihau oedi ac ansicrwydd i blant a phobl ifanc, gan helpu i atal canlyniadau andwyol tymor hwy sy'n gysylltiedig ag amser estynedig mewn gofal.

Mae newidiadau sy'n ymwneud â gofal maeth gan berthnasau, gan gynnwys trefniadau adolygu ac ymweld mwy cymesur, yn cefnogi atal trwy leihau pwysau diangen ar deuluoedd a helpu i gynnal lleoliadau. Mae hyn yn cyfrannu at atal methiant trefniadau gofal a'r angen am ddewisiadau amgen sy'n golygu mwy o darfu.

Yn ogystal, mae canllawiau cliriach ar lwfansau maethu a chynllunio cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn helpu i sicrhau bod gofalfwyr a theuluoedd yn cael cymorth priodol yn gynharach. Gall hyn leihau straen ariannol ac ansicrwydd, gan atal materion rhag gwaethgu a chefnogi trefniadau gofal mwy hirdymor a sefydlog.

Er bod disgwyl i'r cynigion ddarparu buddion ataliol cryf, bydd eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar weithredu cyson, capasiti digonol a gwaith partneriaeth effeithiol ar draws gwasanaethau. Efallai y bydd heriau tymor byr wrth i systemau ac arferion addasu; fodd bynnag, dros y tymor hwy, disgwylir i'r cynigion gefnogi system fwy cynaliadwy, ataliol, gan leihau'r galw am ymyriadau argyfwng a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.

Mae Rhianta Corfforaethol yn ymwneud â rhoi pobl ifanc a'u llais wrth wraidd gwasanaethau. Ei nod yw mynd i'r afael â'r stigma maen nhw'n ei brofi ac atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn trwy ddarparu cymorth cyson a chydlynol a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w lles ac yn mynd i'r afael â chylchoedd pontio'r cenedlaethau.

Trwy greu rhianta corfforaethol mwy cadarn, gallwn ganolbwyntio ar ddarparu addysg sefydlog, cartref sefydlog a chefnogi pobl ifanc i ffynnu wrth iddynt agosáu at fyw'n annibynnol.

Roedd y gyfradd NEET¹ (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru yn 17% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025.

Mae'r newidiadau i'r Cod Rhan 6 yn cefnogi'r weledigaeth hon. Maen nhw'n ymwneud â chynyddu llais y plentyn wrth asesu ac mewn lleoliadau, yn ogystal â datblygu polisi a gweithredu yn lleol. Mae'n ymwneud â phobl ifanc yn cael y cyfle i ddwyn eraill i gyfrif a rhoi adborth ar y system er mwyn gwneud gwelliannau.

Ni fydd y cynigion hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar wasanaethau presennol a'r gweithlu. Nid yw rhianta corfforaethol a'r newidiadau cysylltiedig yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol ond maen nhw'n darparu canllawiau ar sut i gyflawni dyletswyddau cyfredol o fewn y Cod Rhan 6. Efallai y bydd bwrw ymlaen â'r cynigion yn cael effaith fach iawn ar adnoddau o fewn awdurdodau lleol sydd eisoes dan bwysau.

Manteision

Mae'r newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yn hytrach na symptomau, gan ddarparu nifer o fanteision ar draws y sector gofal plant, gan gynnwys cynllunio mabwysiadu, gofal gan berthynas, maethu a threfniadau gwarcheidiaeth arbennig. Trwy gryfhau aliniad rhwng fframweithiau cyfreithiol ac ymarfer a chyflwyno canllawiau cliriach, mae'r diwygiadau'n cefnogi system fwy ataliol, ymatebol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae prosesau cynllunio gofal yn cyd-fynd yn well ar draws fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4, gan gefnogi proses fwy cyfannol o wneud penderfyniadau a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried yn gyson trwy gydol eu taith. Mae hyn yn gwella ansawdd a chysondeb y broses o gynllunio ac adolygu trefniadau mabwysiadu, gan arwain at ganlyniadau sefydlogrwydd mwy sefydlog ac amserol.

Mae ymgorffori Fframwaith WEP yn hyrwyddo ymyrraeth gynharach a chynllunio mwy rhagweithiol, gan helpu plant i gyflawni lleoliadau sefydlog, hirdymor yn gyflymach a lleihau ansicrwydd ac oedi.

Mae diwygiadau i ofal gan berthynas, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu ac ymweld a gefnogir gan reoliadau a chanllawiau wedi'u diweddarau, yn galluogi dull mwy cymesur ac wedi'i deilwra. Mae hyn yn lleihau ymyrraeth ddiangen i fywyd teuluol

¹ Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

wrth gynnal trefniadau diogelu, gan helpu i gynnal lleoliadau o fewn rhwydweithiau teuluol a gwella sefydlogrwydd.

Mae cyflwyno templedi cenedlaethol statudol ar gyfer cynlluniau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig yn sicrhau dull mwy cyson, strwythuredig a theg o roi cymorth. Mae hyn yn lleihau amrywiaeth ar draws awdurdodau lleol ac yn darparu mwy o eglurder i ymarferwyr a theuluoedd ar brosesau asesu, cynllunio ac adolygu.

Mae gwell eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a hawliau, gan gynnwys mynediad at y lwfans maethu uwch, yn cefnogi mwy o dryloywder a thegwch i ofalwyr. Mae hyn yn helpu gofalwyr i deimlo'n fwy gwybodus a'u bod yn cael mwy o gymorth, gan gyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau a chanlyniadau gwell i blant.

Mae'r newidiadau'n sicrhau manteision ehangach i'r system trwy symleiddio prosesau a lleihau cymhlethdod gweinyddol diangen. Mae hyn yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau ac yn cyfrannu at ddull mwy cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau.

Ar y cyfan, mae'r diwygiadau'n hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol trwy alluogi mwy o blant i aros yn eu teuluoedd a'u cymunedau lle bo hynny'n briodol, lleihau tarfu a chefnogi perthnasoedd cryfach a mwy sefydlog, gan sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel ledled Cymru.

Bydd manteision y cynigion o ran rhianta corfforaethol a llais y plentyn yn gorbwyso unrhyw effaith gan y byddant yn gyfle i gefnogi awdurdodau lleol i rannu dysgu am yr hyn sy'n gweithio a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith maen nhw am ei wneud yn y dyfodol. Bydd y cynigion yn darparu canllawiau ar gyflawni eu rôl fel rhianta corfforaethol. Bydd y newidiadau i'r Cod Rhan 6 yn cyd-fynd hefyd â'r gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth pellach ar baneli rhianta corfforaethol mewn cydweithrediad â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Integreiddio

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r broses o gynllunio mabwysiadu, gofal gan berthynas, maethu a sefydlogrwydd cynnar yn adlewyrchu dull system gyfan, mwy integredig sy'n ymestyn y tu hwnt i ofal cymdeithasol plant i fanteision ehangach o ran polisi cyhoeddus. Trwy gryfhau aliniad rhwng fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal), ac ymwreiddio canllawiau cliriach, sy'n canolbwyntio ar ymarfer, mae'r diwygiadau'n cefnogi gwell cydlynio ar draws gwasanaethau ac yn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.

Mae gwella cysondeb ac ansawdd prosesau cynllunio ac adolygu mabwysiadu yn gwella iechyd meddwl a lles emosiynol, wrth i blant gael budd o leoliadau mwy amserol, sefydlog ac wedi'u cynllunio'n dda. Mae ymgorffori Fframwaith WEP yn cefnogi hyn ymhellach trwy hyrwyddo gwneud penderfyniadau yn gynharach a lleihau ansicrwydd, gan gyfrannu at ymlyniadau mwy diogel a gwell canlyniadau hirdymor.

Mae'r hyblygrwydd cynyddol mewn trefniadau adolygu ac ymweld ar gyfer lleoliadau maeth gan berthynas yn cefnogi dull mwy cymesur sy'n canolbwyntio ar deuluoedd i raddau mwy, gan helpu plant i aros yn eu teuluoedd a'u cymunedau lle bynnag y bo

hynny'n briodol. Mae hyn yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol a pharhad diwylliannol, gan gynnwys cefnogi plant i gynnal eu hunaniaeth, eu perthnasoedd a'u cysylltiad â'r Gymraeg.

Mae'r diwygiadau'n cyfrannu at well sefydlogrwydd economaidd a chyfranogiad hefyd. Mae mwy o eglurder ar brosesau, gan gynnwys mynediad at y lwfans maethu uwch, a threfniadau symlach ar gyfer gofalwyr maeth, yn helpu i leihau beichiau gweinyddol ac ansicrwydd ariannol. Mae hyn yn galluogi gofalwyr i sicrhau cydbwysedd gwell rhwng eu cyfrifoldebau gofalu a chyflogaeth neu hyfforddiant, gan gefnogi cyfranogiad parhaus yn y gweithlu.

I blant a phobl ifanc, mae prosesau mwy cyson o gynllunio gofal a gwell sefydlogrwydd lleoliadau yn creu sylfaen gryfach ar gyfer ymgysylltu a chyrhaeddiad addysgol, gan fod llai o darfu ar leoliadau yn cefnogi parhad o ran dysgu a datblygu.

Mae'r newidiadau'n cefnogi diwylliant a'r Gymraeg hefyd trwy atgyfnerthu pwysigrwydd cydnabod anghenion ieithyddol a diwylliannol plant ac ymateb iddynt wrth gynllunio gofal ac wrth wneud penderfyniadau ar leoliadau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg, cefnogi plant i gynnal eu hiaith, eu hunaniaeth a'u treftadaeth, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth wneud hynny, mae'r diwygiadau'n cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru er mwyn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau dwyieithog a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol ym maes gofal.

Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn yn dangos dull integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod gwelliannau i fabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas nid yn unig yn cryfhau'r system gofal cymdeithasol ond yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd, addysg, diwylliannol ac economaidd ehangach ledled Cymru hefyd.

Bydd darparu canllawiau ychwanegol ar rianta corfforaethol yn hyrwyddo rhianta corfforaethol ar draws awdurdodau lleol ac felly'n cefnogi gwaith integreiddio wrth gyflawni'r canlynol:

- Gwell mynediad at addysg: cefnogi mynediad plant at addysg a chodi cyrhaeddiad.
- Byddai nodi cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at hyfforddiant a darparu cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth a phrentisiaethau yn arwain at fanteision economaidd hirdymor.
- Gwella iechyd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal trwy well cymorth i gael mynediad at wasanaethau fel iechyd meddwl ac ymyrraeth gynnar.
- Hyrwyddo dulliau ar y cyd i gefnogi pobl sy'n gadael gofal mewn meysydd fel tai, cyflogaeth a hamdden.

Hyrwyddo dulliau integredig ar draws sefydliadau a fydd yn arwain at effeithlonrwydd ac yn arbed costau

Cydweithio a chymryd rhan

Rydym wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i gyd-ddylunio diwygiadau sy'n seiliedig ar brofiad bywyd ac arbenigedd proffesiynol. Mae'r partneriaid sydd â diddordeb

yn cynnwys awdurdodau lleol, AGC, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a threfniadau cydweithredol rhanbarthol, AFKA Cymru, y Rhwydwaith Maethu, darparwyr gwasanaethau annibynnol, gweithwyr cymdeithasol, plant a theuluoedd â phrofiad bywyd, academyddion ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth eang hon yn sicrhau bod y cynigion yn wybodus, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion y sector.

Mae'r partneriaid sydd â diddordeb yn y newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol a llais y plentyn yn awdurdodau lleol. Mae partneriaid eraill yn cynnwys cyrff cyhoeddus ehangach, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau'r sector preifat ac, yn bwysicaf oll, plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae pobl yr effeithir arnynt gan y cynigion wedi galw'n gyson am gymorth personol mwy hyblyg, yn enwedig i ofalwyr sy'n berthnasau ac oedolion wedi'u mabwysiadu. Maen nhw hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cydnabod gofalwyr fel aelodau allweddol o'r tîm gofal cymdeithasol.

Mae rhanddeiliaid wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion. Mae'r ymgysylltu wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ymchwil wedi'i dargedu gan AFKA Cymru a mentrau dan arweiniad y sector fel Fframwaith WEP. Mae rhanddeiliaid wedi helpu i nodi heriau ymarferol a meysydd i'w gwella. Bydd eu cyfranogiad parhaus yn hanfodol wrth lywio penderfyniadau terfynol, cefnogi gweithredu trwy hyfforddiant a diweddariadau gweithdrefnol, a chyfrannu at fonitro a gwerthuso parhaus er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

Mae'r cynigion ar rianta corfforaethol a'r cynigion cysylltiedig wedi'u datblygu trwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol trwy Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a swyddogion cyfranogi, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau â diddordeb, gan gynnwys y trydydd sector), y Rhwydwaith Profiad o Fod Mewn Gofal a sefydliadau sector preifat sydd â phrofiad yn y maes. Cynhaliwyd sesiwn hefyd gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn cael eu barn ar y cynigion a hwyluswyd gan Voices from Care Cymru. Bydd gan yr holl bartneriaid hyn rôl weithredol o ran cyflawni.

Mae'r cynigion wedi'u llywio gan yr adborth o Ddigwyddiad Rhianta Corfforaethol cyntaf Cymru a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2025 ac a fynychwyd gan 100 a mwy o sefydliadau sydd naill ai wedi cofrestru â'r Siarter Rhianta Corfforaethol neu a oedd yn ystyried cofrestru.

Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Weinidogol Profiad o Fod Mewn Gofal gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ym mis Mai lle cafodd y materion sy'n bwysig iddynt eu codi'n uniongyrchol gyda Gweinidogion. Mae hyn wedi cyfrannu at Ddatganiad diwygiedig sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau i gefnogi plant mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal a fydd yn cael ei lofnodi gan y Prif Weinidog a'r Llysgenhadon Ifanc ar 19 Tachwedd 2025. Bydd yr ymgysylltu a'r ddeialog hon â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau trwy grwpiau cyfranogi fel Voices from Care Cymru, Grŵp y Comisiynwyr Ifanc o Gonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a grwpiau pobl ifanc awdurdodau lleol.

Effaith

Yn gyffredinol, disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr trwy wella cysondeb, eglurder a sefydlogrwydd ar draws trefniadau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig. Bwriad y diwygiadau yw cefnogi sefydlogrwydd cynharach, cryfhau prosesau cynllunio ac adolygu gofal, gwella sefydlogrwydd lleoliadau a hyrwyddo dull tecach o ddarparu cymorth ledled Cymru. Disgwylir i'r newidiadau gefnogi canlyniadau gwell hefyd trwy drefniadau rhianta corfforaethol cryfach a mwy o bwyslais ar lais y plentyn. Er y gall fod rhywfaint o bwysau gweithredu tymor byr i awdurdodau lleol ac ymarferwyr, ystyrir bod y rhain yn gymesur ac yn cael eu gorbwyso gan y manteision a ragwelir

Risgiau

Er mai bwriad y newidiadau arfaethedig yw gwella cysondeb, eglurder a chanlyniadau, mae nifer o risgiau posibl yn gysylltiedig â'u gweithredu.

- **Amrywiaeth o ran dehongli a gweithredu** – er mai nod y newidiadau yw gwella aliniad rhwng fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal), mae risg y gall awdurdodau lleol ddehongli neu gymhwyso'r canllawiau yn wahanol, gan arwain at amrywiad parhaus mewn ymarfer ledled Cymru.
- **Heriau gweithredu i ymarferwyr** – efallai y bydd angen hyfforddiant ac addasiadau ychwanegol er mwyn cyflwyno canllawiau diwygiedig, gan gynnwys ymgorffori Fframwaith WEP. Heb gymorth digonol, mae risg o gymhwyso anghyson neu oedi wrth ymwreiddio dulliau newydd.
- **Risg o anghysondeb anfwriadol yn ystod y broses bontio** – yn ystod y cyfnod pontio i brosesau wedi'u diweddarau, efallai y bydd tarfu ar y broses o gynllunio mabwysiadu, trefniadau adolygu a gwneud penderfyniadau yn y tymor byr, a allai effeithio ar amseroldeb i blant.
- **Cydbwyso hyblygrwydd â diogelu mewn trefniadau gofal gan berthynas** – er mai bwriad cael mwy o hyblygrwydd mewn gofynion adolygu ac ymweld yw lleihau ymyrraeth ddiangen, mae risg y gallai hyn arwain at lai o oruchwyliaeth os na chaiff ei gymhwyso'n briodol, gan effeithio ar ddiogelu o bosibl.
- **Cymhwyso hyblygrwydd yn anghyson** – heb drothwyon a disgwyliadau clir, gall ymarferwyr gymhwyso trefniadau hyblyg yn wahanol, gan arwain at annhegwch yn y ffordd y mae plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi.
- **Pwysau o ran capasiti ac adnoddau** – gall gweithredu dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u teilwra i raddau mwy ar gyfer cynllunio, adolygu a chefnogi (gan gynnwys gofal gan berthynas a phrosesau mabwysiadu) osod gofynion ychwanegol ar adnoddau a chapasiti'r gweithlu mewn awdurdodau lleol.
- **Dibynnu ar dempledi statudol ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig** – er mai bwriad templedi cenedlaethol yw gwella cysondeb, mae risg y gallent gael eu cymhwyso'n rhy anhyblyg, gan gyfyngu ar farn broffesiynol neu fethu ag adlewyrchu'n llawn amgylchiadau teuluol unigol os na chânt eu defnyddio'n hyblyg.
- **Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o newidiadau** – efallai na fydd gofalwyr ac ymarferwyr yn deall yn llawn brosesau wedi'u diweddarau, gan gynnwys mynediad at

y lwfans maethu uwch, a allai arwain at ddryswch, tanddefnyddio hawliau neu anafodlonrwydd.

- **Cynnal cysondeb ochr yn ochr â hyblygrwydd lleol** – er bod y diwygiadau yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol, mae risg gynhenid y gall cyflawni'r ddau amcan ar yr un pryd fod yn heriol yn ymarferol.

Bydd lliniaru'r risgiau hyn yn gofyn am ddull cydgysylltiedig a rhagweithiol o weithredu. Mae hyn yn cynnwys darparu canllawiau cynhwysfawr, clir yn y Codau, ochr yn ochr â hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu i ymarferwyr er mwyn sicrhau dehongli a chymhwyso cyson ledled Cymru. Bydd mecanweithiau monitro ac adolygu parhaus yn bwysig er mwyn nodi unrhyw anghysondebau neu ganlyniadau anfwriadol sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, gan ganiatáu addasiadau amserol.

Bydd cryfhau cyfathrebu ag awdurdodau lleol, gofawr a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau, gan gynnwys y defnydd priodol o hyblygrwydd a phrosesau newydd. Yn ogystal, bydd cynnal pwyslais cryf ar ddiogelu, barn broffesiynol a llais y plentyn yn hanfodol er mwyn osgoi dulliau rhy weithdrefnol. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn cefnogi gweithredu effeithiol, yn hyrwyddo cysondeb gan ganiatáu hyblygrwydd lleol priodol hefyd, ac yn sicrhau bod manteision bwriedig y diwygiadau yn cael eu gwireddu'n ymarferol.

Gallai'r prif risg mewn perthynas â'r canllawiau ychwanegol ar rianta corfforaethol sy'n nodi sut y gall awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o fewn y Cod Rhan 6 gynyddu'r pwysau arnyn nhw a'u gweithlu wrth gyflawni eu rôl fel rhieni corfforaethol. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth i ddangos bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo mewn llawer o awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â'r canllawiau ychwanegol arfaethedig. Y risg arall yw, pan gyhoeddwyd y Siarter Rhianta Corfforaethol, cafwyd galwad gan wahanol sectorau i roi'r Siarter ar sail statudol ar gyfer pob corff cyhoeddus, heb ei chyfyngu i awdurdodau lleol yn unig.

Rydym wedi archwilio'r dadleuon hyn yn eang trwy gyfranogiad cynrychiolwyr o bob sector a thrwy gydweithio â nhw, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan a swyddogion cyfranogiad awdurdodau lleol, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol a thrwy ymgysylltu â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio adborth gan y sector, yn monitro canlyniadau ac yn darparu canllawiau cliriach lle bo angen er mwyn mynd i'r afael â'r materion posibl hyn.

Costau ac arbedion

Mae manylion llawn y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i'w gweld yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol perthnasol, sydd wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r broses o gyflwyno'r newidiadau.

Mecanwaith

Bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth ar ffurf Codau Ymarfer statudol diwygiedig.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r bobl sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig wedi cymryd rhan trwy broses ddatblygu eang, gynhwysol ac ailadroddus, gan sicrhau bod eu barn wedi llywio'r broses o ddrafftio a mireinio'r Codau Ymarfer mewn modd ystyrlon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ofyn am fewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl sy'n gadael gofal, gwarcheidwaid arbennig, gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau, rhieni mabwysiadol ac ymarferwyr ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau partner. Mae ymgysylltu wedi digwydd trwy ymarferion ymgynghori ffurfiol, fforymau rhanddeiliaid a thrafodaethau dan arweiniad y sector, sydd â'r nod o gasglu profiadau bywyd a mewnwelediad proffesiynol ar draws pob maes, gan gynnwys rhianta corfforaethol, cynllunio gofal, lleoliadau, mabwysiadu a gwarcheidiaeth arbennig.

Rhodddwyd pwyslais arbennig ar sicrhau bod llais y plentyn a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi llywio agweddau allweddol ar y cynigion. Roedd gweithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau fel digwyddiad *"Falch o Fod yn Fi"* *Voices from Care Cymru*, trafodaethau gyda'r Rhwydwaith Profiad o Fod Mewn Gofal, a chyfraniadau gan grwpiau comisiynwyr ifanc Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys cyfranogiad gan siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hadlewyrchu.

Yn ogystal, mae'r gwaith o ddatblygu cynigion sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol, sefydlogrwydd lleoliadau a chynllunio gofal wedi'i lywio gan dystiolaeth ac ymgyrchoedd presennol, gan gynnwys ymgyrch *"Pethau Pwysig i Mi"* Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru ac adroddiadau perthnasol fel y rhai a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru (adroddiad Lwc/Luck: Profiadau Pobl Ifanc sydd â Phrofiad Gofal – Y stori hyd yma). Mae'r mewnbynnau hyn wedi helpu i lywio darpariaethau sy'n ymwneud â symudiadau lleoliad, parch at eiddo plant a phwysigrwydd sefydlogrwydd a lles.

Mae ymgysylltu wedi cael ei gefnogi trwy ddeunyddiau ymgynghori hygyrch a dwyieithog hefyd, gyda chyfleoedd wedi'u darparu mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn hwyluso cyfranogiad ar draws gwahanol anghenion a dewisiadau. Mae adborth gan ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi bod yn arbennig o ddylanwadol wrth lywio cynigion sy'n ymwneud â gwaith amlasiantaethol, prosesau adolygu, sefydlogrwydd cynnar, hyblygrwydd gofal gan berthynas a mynediad at lwfansau maethu, yn ogystal â datblygu cynlluniau cymorth cyson ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mabwysiadu, Maethu, Gofal gan Berthnasau a Gwarcheidiaeth Arbennig

Ar y cyfan, disgwylir i'r cynigion arwain at effeithiau cadarnhaol yn bennaf, yn enwedig wrth gryfhau cysondeb ymarfer, hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliad a gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n rhan o drefniadau mabwysiadu, maethu a gwarcheidiaeth arbennig.

Un o'r effeithiau cadarnhaol allweddol yw'r aliniad gwell rhwng fframweithiau mabwysiadu (Rhan 6) a chynllunio gofal (Rhan 4), y disgwylir iddynt gefnogi prosesau mwy cyson ac effeithiol o ran gwneud penderfyniadau. Dylai hyn arwain at ganlyniadau sefydlogrwydd cynharach ac wedi'u cynllunio'n well, gan leihau oedi ac ansicrwydd i blant. Mae ymgorffori Fframwaith WEP yn cryfhau'r dull hwn ymhellach trwy hyrwyddo lleoliadau amserol, sefydlog a llai o darfu.

Mae'r cynigion yn cyflwyno mwy o eglurder a chysondeb wrth gynllunio ac adolygu mabwysiadu, a fydd yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu prosesau cynllunio gofal mwy cadarn a thryloyw. Mae hyn yn debygol o wella canlyniadau hirdymor i blant trwy sicrhau bod penderfyniadau'n wybodus, yn amserol ac yn canolbwyntio ar eu buddiannau gorau.

Mae newidiadau sy'n ymwneud â gofal maeth gan berthynas yn effaith gadarnhaol sylweddol arall. Mae canllawiau wedi'u diweddarau sy'n adlewyrchu'r hyblygrwydd a gyflwynwyd trwy Reoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yn caniatáu dull mwy cymesur o ymdrin â threfniadau adolygu ac ymweld, gan leihau ymyrraeth ddiangen i fywyd teuluol gan gynnal trefniadau diogelu. Disgwylir i hyn wella sefydlogrwydd lleoliadau a phrofiad gofalwyr sy'n berthnasau, gan sicrhau goruchwyliaeth briodol ar yr un pryd.

Mae'r cynigion yn darparu mwy o eglurder a chysondeb hefyd o ran mynediad at y lwfans maethu uwch, a ddylai wella tryloywder a thegwch ar draws gwahanol fathau o ofalwyr. Mae hyn yn debygol o gefnogi cynaliadwyedd lleoliadau a helpu i fynd i'r afael â rhwystrau ariannol sy'n wynebu gofalwyr.

Mewn perthynas â gwarcheidiaeth arbennig, disgwylir i'r gwaith o gyflwyno templedi cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cymorth sicrhau mwy o gysondeb a thegwch wrth asesu, cynllunio a darparu cymorth ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn cynnig cliriach a mwy strwythuredig o gymorth, waeth ble maen nhw'n byw.

Er bod yr effeithiau yn gadarnhaol i raddau helaeth, mae yna rai effeithiau negyddol neu niwtral posibl i'w hystyried. Gall cyflwyno fframweithiau a gofynion mwy strwythuredig arwain at fwy o ofynion gweinyddol ar gyfer awdurdodau lleol ac ymarferwyr yn y tymor byr. Efallai y bydd heriau gweithredu hefyd, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant ac addasu i brosesau newydd, a allai roi pwysau ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hymestyn. Yn ogystal, gall mwy o eglurder ynghylch hawliau, fel lwfansau maethu neu gynlluniau cymorth, arwain at fwy o alw am wasanaethau, gyda goblygiadau sy'n gysylltiedig ag adnoddau.

Ar y cyfan, fodd bynnag, disgwylir i'r effeithiau negyddol posibl hyn fod yn rhai tymor byr ac yn rhai y gellir eu rheoli, ac maen nhw'n cael eu gorbwyso gan y manteision tymor hwy o gael mwy o gysondeb, gwell canlyniadau, gwell sefydlogrwydd a mynediad tecach at gymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rhianta Corfforaethol

Roedd cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn un o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu yn nhymor y Senedd flaenorol. Roedd yr ymrwymiad yn un o 8 sy'n benodol i wasanaethau cymdeithasol plant a ffurfiodd fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen â'r Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau i Blant.

Rhannwyd y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn yn ddwy ran, a'r rhan gyntaf yw cyflwyno'r [Siarter Rhianta Corfforaethol](#). Mae cyflwyno'r Siarter Rhianta Corfforaethol wedi cael effaith gadarnhaol gan ei fod yn ymwneud â hyrwyddo ac ymgysylltu â sefydliadau yn ehangach na dim ond awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol i fod yn rhieni corfforaethol. Mae'r Siarter yn agored i bob corff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat i ymrwymo i'w haddewidion a'u hegwyddorion a dod yn rhieni corfforaethol. Cynhaliwyd Digwyddiad cyntaf Arferion Gorau Rhianta Corfforaethol ym mis Chwefror 2025 ac roedd 100 a mwy wedi mynychu o wahanol sectorau.

Dangosodd y digwyddiad yr effaith gadarnhaol y gall rhianta corfforaethol ei chael yn bwysicaf oll ar blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, ac roedd hyn i'w glywed trwy eu lleisiau eu hunain yn y digwyddiad. Gall gael effaith gadarnhaol ar sefydliadau sy'n cofrestru i fod yn rhieni corfforaethol hefyd, gan ei fod yn ymwneud â datblygu cymuned o gymorth i bobl ifanc, felly bydd yn annog proses o feithrin cysylltiadau ar draws sectorau ac yn cryfhau gwaith partneriaeth. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcan llesiant **Cymru o gymunedau cydlynus**.

Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6 yn cyflwyno dyletswyddau newydd. Yn hytrach, maen nhw'n darparu canllawiau ychwanegol wrth gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol presennol. Felly, ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith ychwanegol ar y Gymraeg. Mae'r newidiadau'n cynnwys mân ychwanegiadau i benodau presennol y Cod hefyd er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd gwrando ar lais y plentyn ac ystyried llais y plentyn wrth gynllunio gofal, yn ystod cyfarfodydd adolygu ac mewn penderfyniadau ynghylch lleoliadau.

Mae 'Mwy Na Geiriau' yn datgan bod 'defnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar ei anghenion a'i les emosiynol, a dyna pam mae hyn mor bwysig.' Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar rianta corfforaethol sy'n fodel sy'n cefnogi'n llawn y weledigaeth honno o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a'r ffaith y bydd cryfhau rhianta corfforaethol yn annog sefydliadau i weithio gyda'i gilydd. Bydd yn darparu mwy o ddewis a rheolaeth dros yr iaith y mae plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ymgysylltu ynddi ac yn cael cymorth ynddi, a fydd yn cryfhau eu lles emosiynol.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o raglen ehangach Rhianta Corfforaethol sy'n adeiladu ar y Siarter a bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi gan ei fod yn ymwneud â darparu cyfleoedd fel:

- Cefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i gael yr un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru trwy eu helpu i ddod o hyd i gartref sefydlog a rhoi cyfle iddynt gael mynediad at addysg a chyrraedd eu potensial
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cyrraedd eu potensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol trwy sicrhau bod mynediad consesiynol a/neu am bris gostyngol ar gael ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliannol
- Darparu cyfleoedd dysgu a dilyniant yn y sefydliad, fel profiad gwaith neu brentisiaethau, i blant â phrofiad o fod mewn gofal.

Er bod disgwyl i effeithiau'r cynigion i gryfhau rhianta corfforaethol fod yn gadarnhaol i raddau helaeth, mae rhai heriau a chyfyngiadau posibl i'w hystyried. Efallai y bydd y ffocws mwy cadarn ar rianta corfforaethol ac ymgysylltu ehangach ar draws sefydliadau yn gofyn am ymrwymadau ychwanegol o ran capasiti ac adnoddau gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat sy'n dewis mabwysiadu egwyddorion y Siarter. Gallai hyn roi pwysau ar sefydliadau sydd â chapasiti cyfyngedig, yn enwedig yng nghanau cynnar y gweithredu

Mae risg hefyd, gan nad yw'r cynigion yn cyflwyno dyletswyddau statudol newydd, y gall lefelau ymgysylltu a chysondeb ar draws sefydliadau amrywio, a allai arwain at brofiadau anghyfartal i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw neu'r sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Yn ogystal, er bod disgwyl y bydd cryfhau canllawiau a gwaith partneriaeth yn gwella canlyniadau, efallai y bydd angen cydlyn, hyfforddiant a newid diwylliannol parhaus ar draws sectorau. Gallai hyn gymryd amser i'w ymwreiddio'n llawn a gall arwain at heriau yn y tymor byr o ran gweithredu.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nod diwygiadau Llywodraeth Cymru yw creu system ofal fwy cynhwysol a theg ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn Mae'r newidiadau hyn yn cyfrannu at saith nod llesiant *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Cymru Iachach

Wrth wraidd y newidiadau mae ymrwymiad i wella lles emosiynol ac iechyd meddwl i blant, pobl ifanc a theuluoedd â phrofiad o fod mewn gofal. Trwy gyfrifoldebau mwy cadarn o ran rhianta corfforaethol, gwaith cliriach o ran cynllunio gofal a chymorth, gwell sefydlogrwydd lleoliadau a fframweithiau mabwysiadu a sefydlogrwydd gwell, nod Llywodraeth Cymru yw

sicrhau bod unigolion yn cael cymorth cyson, cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r cynigion yn rhoi pwyslais cryf ar sefydlogrwydd, parhad gofal a chynllunio effeithiol, gan gynnwys gwell canllawiau ar symudiadau lleoliad, prosesau adolygu cryfach a mwy o aliniad ar draws fframweithiau mabwysiadu a chynllunio gofal. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i leihau tarfu ac ansicrwydd i blant a phobl ifanc, gan gefnogi'r broses o ddatblygu perthnasoedd diogel a chanlyniadau cadarnhaol o ran iechyd meddwl.

Yn ogystal, mae'r cynigion yn hyrwyddo gwaith amlasiantaethol mwy effeithiol a phroses gyson o wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â dulliau cryfach o ran gofal gan berthynas, cymorth maethu a chynllunio gwarcheidiaeth arbennig. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at amgylcheddau gofal mwy sefydlog a chefnogol, sy'n ganolog i ymagwedd ataliol a chyfannol at iechyd a lles.

Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â'r nodau o gryfhau rhianta corfforaethol ac yn cyfrannu at weledigaeth Cymru lachach, lle mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar gymorth cynnar, sefydlogrwydd a gwella canlyniadau lles hirdymor i unigolion â phrofiad o fod mewn gofal.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Disgwylir i'r cynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at Gymru sy'n fwy cyfartal trwy wella cysondeb, eglurder a mynediad at gymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n rhan o drefniadau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig.

Effaith allweddol yw cryfhau mynediad cyfartal at gymorth a gwasanaethau, trwy ganllawiau cliriach ar gynllunio gofal, prosesau adolygu a hawliau fel lwfansau maethu a chynllunio cymorth. Mae hyn yn helpu i leihau amrywiaeth mewn ymarfer a chanlyniadau ar draws awdurdodau lleol, gan sicrhau bod unigolion yn cael lefel fwy cyson o gymorth waeth ble maen nhw'n byw.

Mae'r pwyslais ar sefydlogrwydd lleoliadau, sefydlogrwydd cynnar a chynllunio effeithiol yn bwysig hefyd o ran lleihau anghydraddoldebau y mae plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu. Trwy leihau tarfu ac oedi, mae'r cynigion yn cefnogi gwell canlyniadau hirdymor mewn meysydd fel addysg, lles emosiynol a chyfleoedd bywyd, sy'n aml yn feysydd lle mae anghydraddoldebau yn fwyaf amlwg.

Mae'r ffocws cryfach ar ofal gan berthynas a threfniadau mwy cymesur yn cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu teuluoedd sy'n camu ymlaen i ofalu am blant, yn aml mewn sefyllfaoedd argyfwng. Trwy ddarparu canllawiau cliriach a dulliau mwy hyblyg, mae'r cynigion yn helpu i leihau rhwystrau a chefnogi profiadau mwy cyfartal i ofalwyr sy'n berthnasau a'r plant yn eu gofal.

Yn ogystal, bydd cyflwyno dull mwy cyson o gynllunio cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig yn helpu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cynnig cliriach a thecach o

gymorth ledled Cymru, gan fynd i'r afael ag anghysondebau presennol a lleihau gwahaniaethau posibl rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo dull cryfach o ymdrin â rhianta corfforaethol hefyd, gan annog cyfrifoldeb ehangach ar draws cyrff cyhoeddus a phartneriaid. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi'n gyfannol, gyda gwell mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau, gan gyfrannu at leihau anfantais a hyrwyddo canlyniadau mwy cyfartal dros amser.

Yn gyffredinol, mae'r cynigion yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau trwy wella cysondeb, ansawdd a thegwch cymorth, a thrwy gryfhau systemau sy'n galluogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i gyflawni canlyniadau sy'n fwy cymharol i'w cyfoedion.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Disgwylir i'r cynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at gydlyniant cymunedol trwy gryfhau sefydlogrwydd, perthnasoedd a chysylltiadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd â phrofiad o fod mewn gofal.

Elfen allweddol o hyn yw'r pwyslais ar sefydlogrwydd lleoliadau a pharhad gofal, wedi'i gefnogi trwy ganllawiau gwell ar gynllunio gofal a chymorth, symudiadau lleoliad a phrosesau adolygu. Trwy leihau tarfu a sicrhau prosesau pontio sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n well, mae'r cynigion yn helpu plant a phobl ifanc i gynnal perthnasoedd cryfach â gofalwyr, teuluoedd a rhwydweithiau cymorth ehangach, sy'n sylfaenol i gymunedau cydlynus.

Mae'r ffocws cynyddol ar ofal gan berthynas a lleoliadau lleol yn cefnogi'r nod hwn ymhellach trwy alluogi plant i aros yn eu teuluoedd a'u cymunedau lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn helpu i gadw cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol pwysig, yn cryfhau rhwydweithiau cymorth anffurfiol ac yn hyrwyddo mwy o ymdeimlad o berthyn.

Mae'r cynigion yn cefnogi gwaith amlasiantaethol mwy effeithiol hefyd, gan annog cydweithredu agosach rhwng awdurdodau lleol, gofalwyr a sefydliadau partner. Mae'r dull integredig hwn yn helpu i adeiladu systemau cymorth lleol cryfach o amgylch plant a theuluoedd, gan gyfrannu at gymunedau mwy gwydn a chysylltiedig.

Yn ogystal, mae'r dull cryfach o ran rhianta corfforaethol yn hyrwyddo cydgyfrifoldeb ar draws gwasanaethau a sefydliadau i gefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Trwy annog ymgysylltu ehangach y tu hwnt i wasanaethau statudol, mae'r cynigion yn helpu i ddatblygu model cymorth mwy cymunedol, gan feithrin partneriaethau cryfach a gwella mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau.

Mae'r gwelliannau i'r broses o gynllunio mabwysiadu a sefydlogrwydd, ochr yn ochr â dulliau mwy cyson o faethu a chymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig, yn cyfrannu at

fwy o sefydlogrwydd a diogelwch hirdymor i blant a phobl ifanc hefyd. Mae hyn yn cefnogi eu gallu i feithrin perthnasoedd parhaol a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau.

Mae'r newidiadau'n cyfrannu at Gymru o gymunedau cydlynus trwy hyrwyddo sefydlogrwydd, perthnasoedd cryfach, cysylltiadau lleol a chymorth cydgysylltiedig, gan alluogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i deimlo'n fwy cysylltiedig a'u bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys i raddau mwy yn eu cymunedau.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Disgwylir i'r newidiadau wneud cyfraniad cadarnhaol, ond yn anuniongyrchol yn bennaf, at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn enwedig trwy hyrwyddo egwyddorion tegwch a lles i rai o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Trwy gryfhau rhianta corfforaethol, gwella cysondeb wrth gynllunio gofal a chefnogi trefniadau sefydlogrwydd mwy sefydlog ac effeithiol, mae'r cynigion yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau tebyg i'w cyfoedion. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion byd-eang ehangach o hawliau plant, cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb, fel yr adlewyrchir mewn fframweithiau rhyngwladol fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r pwyslais cynyddol ar sefydlogrwydd, parhad gofal a pherthnasoedd cryf yn cefnogi'r broses o ddatblygu unigolion gwydn sy'n fwy abl i gymryd rhan mewn cymdeithas a chyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau ac, yn y tymor hwy, at yr economi ehangach. Mae cefnogi gwell cyfleoedd bywyd i unigolion â phrofiad o fod mewn gofal yn cyfrannu at gymdeithas fwy cynhwysol a chynaliadwy, sy'n sail i gyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo gwaith partneriaeth mwy cadarn a dull cymunedol cyffredin hefyd o gefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig trwy'r fframwaith rhianta corfforaethol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad i arferion cydweithredol a chyfrifol sy'n ymestyn y tu hwnt i wasanaethau statudol, gan annog sefydliadau ar draws sectorau i gyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol cadarnhaol.

Er nad yw'r cynigion yn cael effeithiau rhyngwladol neu amgylcheddol uniongyrchol, maen nhw'n cefnogi datblygu systemau gofal teg a chynaliadwy, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cyfrifoldeb byd-eang, gan gynnwys lleihau anghydaddoldebau a hyrwyddo lles hirdymor.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo diwylliant bywiog a chefnogi'r Gymraeg, yn enwedig trwy atgyfnerthu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phwysigrwydd hunaniaeth unigol. Mae canllawiau cryfach ar gyfer rhianta corfforaethol, cynllunio gofal a lleoliadau yn pwysleisio'r angen i ystyried iaith, diwylliant a chefnidir pob plentyn neu berson ifanc, gan gydnabod y rhain fel elfennau allweddol o les a gofal.

Trwy hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau a threfniadau lleol, gall y cynigion helpu plant a phobl ifanc i barhau i fod yn gysylltiedig â'u cymunedau, eu rhwydweithiau diwylliannol a'u hamgylcheddau Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal, mae dull mwy cydgysylltiedig a chyson o gynllunio gofal a chymorth yn galluogi ymarferwyr i ystyried anghenion ieithyddol ac ymateb iddynt yn well, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol.

Cymru Lewyrchus

Disgwylir i'r cynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at Gymru fwy llewyrchus, yn bennaf trwy wella canlyniadau hirdymor i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Trwy gryfhau rhianta corfforaethol, gwella'r broses o gynllunio gofal a hyrwyddo mwy o sefydlogrwydd a chysondeb ar draws trefniadau mabwysiadu, maethu a gwarcheidiaeth arbennig, mae'r cynigion yn cefnogi unigolion i sicrhau canlyniadau gwell mewn addysg, lles a chyfleoedd bywyd, yn ogystal â sicrhau gwell sgiliau, cyflogadwyedd a chyfranogiad economaidd dros y tymor hwy.

Un o agweddau allweddol y gwaith hwn yw'r pwyslais ar sefydlogrwydd cynnar, sefydlogrwydd a gwaith cynllunio effeithiol, a all leihau'r tarfu a galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn fwy cyson mewn cyfleoedd addysg a datblygu. Dros amser, mae hyn yn debygol o wella eu gallu i gael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant a chyfranogiad economaidd ehangach.

Mae'r cynigion yn cefnogi gofalcwyr a theuluoedd hefyd trwy ganllawiau cliriach, prosesau mwy cyson a gwell mynediad at gymorth a threfniadau ariannol. Mae hyn yn cyfrannu at leoliadau mwy cynaliadwy a mwy o gyfranogiad mewn llwybrau dysgu, datblygu sgiliau a chyflogaeth. Yn ogystal, mae'r dull cryfach o ran rhianta corfforaethol yn annog amrywiaeth ehangach o sefydliadau i gyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys trwy gyfleoedd fel profiad gwaith, prentisiaethau a mynediad at addysg a gweithgareddau. Mae hyn yn helpu i adeiladu capasiti ar draws sectorau ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu mwy cynhwysol a chynhyrchiol, gan leihau anghydraddoldebau hirdymor a hyrwyddo canlyniadau cynaliadwy i unigolion a chymunedau.

Cymru Gydnerth

Er nad yw'r newidiadau'n targedu canlyniadau amgylcheddol yn uniongyrchol, gallant arwain at fanteision anuniongyrchol sy'n cefnogi gwydnwch. Gall annog lleoliadau lleol, gwell sefydlogrwydd lleoliadau a threfniadau adolygu ac ymweld mwy cymesur ar gyfer gofal maeth gan berthynas leihau teithio i weithwyr cymdeithasol a gofalcwyr, lleihau allyriadau carbon a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy.

Mae'r dull cryfach o gynllunio gofal a chymorth, gwaith amlasiantaethol a phrosesau adolygu yn cyfrannu at systemau mwy cydgysylltiedig ac effeithlon, gan helpu gwasanaethau i weithredu'n fwy cynaliadwy ac ymateb yn effeithiol i anghenion sy'n newid. Yn benodol, mae gwell aliniad rhwng fframweithiau ar gyfer mabwysiadu a

chynllunio gofal, ochr yn ochr ag ymgorffori Fframwaith WEP, yn cefnogi canlyniadau sefydlogrwydd cynharach a mwy sefydlog, gan leihau tarfu a hyrwyddo sefydlogrwydd hirdymor.

Mae gwelliannau i rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol a phrosesau adolygu yn cryfhau ymhellach oruchwyliaeth ac ymatebolrwydd yn y system, tra bod canllawiau cliriach ar symudiadau lleoliad yn cefnogi gwaith cynllunio gwell ac yn lleihau tarfu diangen. Mae cyflwyno dulliau mwy cyson o gynllunio cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig hefyd yn cyfrannu at system gymorth fwy sefydlog y gellir ei rhagweld i blant a theuluoedd.

Trwy ymwreiddio mwy o hyblygrwydd, eglurder a chysondeb ar draws trefniadau maethu, mabwysiadu a gwarcheidiaeth arbennig, mae'r cynigion yn gwella gwydnwch systemau gofal, gan eu galluogi i addasu'n fwy effeithiol i amgylchiadau a phwysau unigol. Mae hyn yn cefnogi nid yn unig wydnwch gwasanaethau ond gwydnwch plant, pobl ifanc a theuluoedd hefyd trwy hyrwyddo amgylcheddau sefydlog, cefnogol a chanlyniadau hirdymor cryfach.

Bwriad rhianta corfforaethol yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac mae'n allweddol i drawsnewid gwasanaethau'n ehangach a fydd o fudd i blant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Ni fydd y newidiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6 yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol. Maen nhw'n ymwneud â darparu canllawiau ychwanegol i gefnogi dyletswyddau presennol mewn ffordd sy'n rhoi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yng nghanol y broses a chryfhau pwysigrwydd eu llais. Mae rhianta corfforaethol yn ymwneud â darparu profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a meithrin ymhellach y dull o weithio mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach a datblygu rhwydwaith o gymorth i bobl ifanc.

Gall Llywodraeth Cymru gymryd camau i hyrwyddo hawliau plant, cydraddoldebau a'r Gymraeg, ac i gryfhau ei chyfraniad at y nodau hyn. Mae egwyddorion y Siarter Rhianta Corfforaethol yn cynnwys cydraddoldeb a dileu stigma, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Siarter. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl y cynigion hyn trwy weithredu dull graddol a gofalus o gyflawni; darparu cymorth a chanllawiau i awdurdodau lleol; monitro a gwerthuso'r cynnydd; ac ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill.

Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer rhieni corfforaethol, ac mae cymuned ymarfer wedi'i chynllunio i ddarparu fforwm i rannu arferion da a dod â rhieni corfforaethol at ei gilydd. Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan trwy gydol y gwaith hwn ac ymgynghorir â nhw trwy gydol y broses hefyd.

Casgliad

Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau hyn yn nodi trawsnewidiad sylweddol o ran gwasanaethau yng Nghymru. Eu nod yw gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gefnogi nodau llesiant Llywodraeth Cymru ar yr un pryd. Trwy hyrwyddo iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol, cynhwysiant diwylliannol a thegwch economaidd, ochr yn ochr â mesurau diogelu i leihau risgiau, mae'r diwygiadau'n adlewyrchu gweledigaeth gyfrifol ac uchelgeisiol ar gyfer Cymru gynhwysol sy'n meithrin ei phobl.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith y newidiadau yn cael ei monitro a'i gwerthuso trwy gyfuniad o fecanweithiau statudol, cydweithredu yn y sector a dolenni adborth wedi'u hymwreiddio yn y fframwaith rheoleiddio. Wrth i'r newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu, bydd disgwyl i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gadw at y Codau Ymarfer sydd wedi'u diweddarau, sy'n cynnwys canllawiau a disgwyliadau cliriach ar gyfer prosesau darparu, asesu ac adolygu gwasanaethau.

Bydd gwaith monitro'n cael ei gefnogi gan oruchwyliaeth annibynnol, fel rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol wrth bennu amseroedd adolygu ar gyfer lleoliadau gyda pherthynas. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gall gomisiynu dadansoddiad pellach trwy drydydd partion achrededig er mwyn asesu effeithiolrwydd y newidiadau.

Cynhelir gwaith gwerthuso hefyd trwy ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys adborth gan ymarferwyr, gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, bydd y defnydd statudol o dempledi cynlluniau cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig yn hyrwyddo cysondeb ac yn golygu y gellir cael dadansoddiad cymharol ar draws awdurdodau lleol.

Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu rianta corfforaethol a newidiadau cysylltiedig eraill, bydd gwaith yn parhau gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal trwy sefydliadau a rhwydweithiau sy'n eu cynrychioli. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n rhan o'r broses ac wedi'u hymgysylltu gymaint â phosibl.

Ar ddiwedd y cam gweithredu, bydd y newidiadau'n cael eu hadolygu ar y cyd er mwyn gwerthuso eu heffeithiolrwydd cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw'r gwelliannau arfaethedig wedi'u cyflawni a sicrhau bod y diwygiadau'n cyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd ledled Cymru.